



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

1 Samuel 18, 19, 20



- 1 Roedd Ysbryd yr ARGLWYDD wedi gadael Saul ac roedd ysbryd drwg i'w boeni. Dyma ei swyddogion yn dweud wrtho, "Syr, beth am i ni fynd i chwilio am rywun sy'n canu'r delyn yn dda? Wedyn, pan fydd Duw yn anfon yr ysbryd drwg arnat ti, bydd e'n canu'r delyn ac yn gwneud i ti deimlo'n well."



- 2 Cytunodd Saul ac anfonwyd am Dafydd, fab Jesse. Pan fyddai Duw yn anfon ysbryd drwg ar Saul, byddai Dafydd yn nôl ei delyn a'i chanu. Byddai hynny'n tawelu Saul a gwneud iddo deimlo'n well. Yna byddai'r ysbryd drwg yn gadael llonydd iddo.



-
- 3 Ond pan ddaeth y fyddin
adre ar ôl i Dafydd ladd
Goliath doedd Saul ddim
yn hapus o gwbl. Roedd
yn eiddigeddus o
lwyddiant a
phoblogrwydd Dafydd.




-
- 4 Y diwrnod wedyn dyma
ysbryd drwg yn dod ar
Saul. Roedd Dafydd
wrthi'n canu'r delyn iddo
fel arfer. Roedd
gwaywffon yn llaw Saul,
a dyma fe'n taflu'r
waywffon at Dafydd. "Mi
hoelia i e i'r wal,"
meddylodd.
Digwyddodd hyn
ddwywaith, ond
llwyddodd Dafydd i'w
osgoi.



-
- 5 Roedd Saul eisiau i
Dafydd farw felly dyma
fo'n anfon Dafydd i
ffwrdd a'i wneud yn
gapten ar uned o fil o
filwyr. Dafydd oedd yn
arwain y fyddin allan i
frwydro. Roedd yn
llwyddo beth bynnag
roedd e'n ei wneud, am
fod yr ARGLWYDD gydag
e. Pan welodd Saul sut
roedd e'n llwyddo roedd
yn ei ofni e fwy fyth




-
- 6 Roedd Michal, merch
Saul, wedi syrthio mewn
cariad â Dafydd. Pan
glywodd Saul am y peth
roedd wrth ei fodd.
Meddylodd, "Gwna i ei
rhoi hi i Dafydd, a bydd
hi fel trap iddo, wedyn
bydd e'n cael ei ladd gan
y Philistiaid."



-
- 7 Dwedodd Saul wrth ei weision, "Dwedwch wrth Dafydd mai'r unig dâl mae'r brenin eisiau am gael priodi ei ferch ydy'r blaengwyn cant o Philistiaid! (Gobaith Saul oedd y byddai Dafydd yn cael ei ladd gan y Philistiaid.) dyma Dafydd a'i filwyr yn mynd allan ac yn ymosod ar y Philistiaid a lladd dau gant ohonyn nhw. Daeth â'r blaengroen oddi ar bidyn pob un ohonyn nhw, a'u rhoi i'r brenin yn dâl am gael priodi ei ferch. Felly dyma Saul yn gadael iddo briodi Michal ei ferch. Dyma Saul yn troi yn hollol erbyn Dafydd am weddill ei fywyd.



-
- 8 Dyma Dafydd yn cyfarfod Jonathan, mab Saul, a daeth y ddau yn ffrindiau gorau. Rhoddodd Jonathan ei fantell, ei grys, ei gleddyf, ei fwa a'i felt i Dafydd. Siaradodd Jonathan ar ran Dafydd gyda'i dad. Addawodd Saul i beidio a lladd Dafydd.



-
- 9 Ond daeth rhyfel unwaith eto, a dyma Dafydd yn mynd allan i ymladd y Philistiaid. Trechodd nhw'n llwyr. A dyma'r ysbryd drwg oddi wrth yr ARGLWYDD yn dod ar Saul eto. Roedd yn eistedd yn ei dŷ a gwaywffon yn ei law, tra roedd Dafydd yn canu'r delyn. A dyma Saul yn trïo trywanu Dafydd a'i hoelio i'r wal gyda'i waywffon. Ond dyma Dafydd yn llwyddo i'w hosgoi ac aeth y waywffon i'r wal, a rheddodd Dafydd i ffwrdd.



-
- 10 Y noson honno dyma Saul yn anfon dynion i wyllo tŷ Dafydd er mwyn ei ladd yn y bore.



-
- 11 Ond roedd Michal, gwraig Dafydd, wedi dweud wrtho, "Os gwnei di ddim dianc am dy fywyd heno, byddi wedi marw fory." A dyma Michal yn gollwng Dafydd allan drwy'r ffenest. Yna dyma hi'n rhoi eilun-ddelw teuluol yn y gwely, rhoi carthen o flew geifr wrth ei ben, a rhoi dillad Dafydd drosto.




-
- 12 Pan ddaeth dynion Saul i arestio Dafydd, dyma hi'n dweud wrthyn nhw, "Mae e'n sâl." Ond dyma Saul yn anfon y dynion yn ôl i chwilio am Dafydd. Pan aethon nhw yn ôl, dyma nhw'n dod o hyd i'r eilun-ddelw yn y gwely a'r blew gafr lle byddai'r pen.



-
- 13 Roedd Dafydd wedi rhedeg i ffwrdd a dianc at Samuel i Rama. Dwedodd wrth Samuel beth oedd Saul wedi bod yn ei wneud iddo.



-
- 14 Cafodd Dafydd gyfarfod cyfrinachol hefo Jonathan. Dyma nhw'n gwneud addewid i fod yn ffrindiau ac i ofalu am deuluoedd ei gilydd. Roedd hi'n amser Gŵyl y lleud newydd ac roedd Dafydd i fod i wledda gyda'r brenin. Ond yn lle hynny roedd am guddio mewn cae am ei fod yn credu fod Saul am ei ladd. Dyma Jonathan yn trefnu i ddarganfod yn iawn beth oedd agwedd ei dad at Dafydd. Trefnodd arwydd cyfrinachol i adael i Dafydd wybod os oedd ei fywyd mewn perygl ai peidio.



-
- 15 Ar Wyl y lleud newydd dyma'r brenin Saul yn eistedd i fwyta. Ond roedd lle Dafydd yn wag. Ddwedodd Saul ddim byd y diwrnod hwnnw.



-
- 16 Ond y diwrnod wedyn roedd sedd Dafydd yn dal yn wag. A dyma Saul yn gofyn i Jonathan, "Pam nad ydy Dafydd wedi dod i fwyta ddoe na heddiw?"



-
- 17 Atebodd Jonathan, "Roedd Dafydd yn crefu arna i adael iddo fynd i Fethlehem. 'Mae'n ddiwrnod aberthu i'n teulu ni,' meddai, 'ac mae fy mrawd wedi dweud fod rhaid i mi fod yno.' Dyna pam dydy e ddim yma i fwyta gyda'r brenin." (Doedd hyn ddim yn wir, rhan o gytundeb Dafydd a Jonathan oedd y stori).



-
- 18 Dyma Saul yn gwylltio'n lân gyda Jonathan. "Ro'n ni'n gwybod dy fod ti ar ei ochr e. Tra bydd mab Jesse yn dal yn fyw fyddi di byth yn frenin. Nawr, anfon i'w nôl e. Tyrd ag e ata i. Mae'n rhaid iddo farw!"



-
- 19 Dyma Jonathan yn ateb ei dad, "Pam wyt ti eisiau ei ladd e? Be mae wedi ei wneud o'i le?" Yna dyma Saul yn taflu ei waywffon at Jonathan gan fwriadu ei daro. Felly roedd yn gwybod yn iawn bellach fod ei dad yn benderfynol o ladd Dafydd.



-
- 20 Y bore wedyn dyma Jonathan yn mynd i'r cae i gyfarfod Dafydd. Aeth â bachgen ifanc gydag e. Dwedodd wrth y bachgen, "Rheda i nôl y saethau wrth i mi eu saethu." Tra roedd y bachgen yn rhedeg dyma fe'n saethu un y tu draw iddo. Pan gyrhaeddodd y bachgen lle roedd y saeth wedi disgyn, dyma Jonathan yn gweiddi ar ei ôl, "Hei, ydy'r saeth ddim yn bellach draw?" (Dyma'r arwydd cyfrinachol oedd Dafydd a Jonathan wedi'i drefnu.)



-
- 21 A dyma'r bachgen yn casglu'r saeth a mynd yn ôl at ei feistr. (Doedd y bachgen ddim yn deall o gwbl. Dim ond Jonathan a Dafydd oedd yn gwybod beth oedd yn digwydd.) Wedyn dyma Jonathan yn rhoi ei offer i'r bachgen, a dweud wrtho am fynd â nhw yn ôl i'r dre.



-
- 22 Ar ôl i'r bachgen fynd dyma Dafydd yn dod i'r golwg o'r tu ôl i'r pentwr. Aeth ar ei liniau ac ymgrymu gyda'i wyneb ar lawr dair gwaith.



-
- 23 Wedyn dyma'r ddau ffrind yn cusanu ei gilydd a wylu, yn enwedig Dafydd. Dwedodd Jonathan wrth Dafydd, "Bendith arnat ti! Dŷn ni'n dau wedi gwneud addewid i'n gilydd o flaen yr ARGLWYDD. Bydd yr ARGLWYDD yn gwneud yn siŵr ein bod ni a'n plant yn cadw'r addewid yna."



-
- 24 Felly dyma Dafydd yn mynd i ffwrdd i guddio, ac aeth Jonathan yn ôl adre.



-
- 25 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
